Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH<br>29 EBRILL 2025<br>10.00 o'r gloch** | **TUESDAY<br>29 APRIL 2025<br>10.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

4 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2025.

5 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

6 **ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON YR YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH 2023/24** (Tudalennau 15 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 43 - 44)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

8 **PORTHLADD RHYDD – DIWEDDARIAD A CHYMERADWYO CYTUNDEB** (Tudalennau 45 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 25 Mawrth, 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd) (Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitem 8)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 9)<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol (GP) (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO)<br>Peiriannydd Grŵp (Strwythurau a Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol) (RT) (ar gyfer eitem 8)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd) a Dyfed Wyn Jones, Mr Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Mrs Carys Edwards, Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Aled Morris Jones, Mrs. Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini. |

### 1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd a nodwyd yr ymddiheuriadau y cyfeirir atynt uchod.

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB:

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 1. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i'w adrodd.

DRAFT

## 2. COFNODION

Cyflwynwyd, i'w cadarnhau, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 18 Chwefror 2025
- 27 Chwefror 2025

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel rhai cywir -**

- **18 Chwefror 2025**
- **27 Chwefror 2025**

## 3. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w gadarnhau, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth, yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Thachwedd 2025.

Cyflwynodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ynglŷn â newidiadau i'r Flaen Raglen Waith, gan gynnwys symud Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2023/24 o'r cyfarfod ym mis Mawrth 2025 i'r cyfarfod ym mis Ebrill 2025, cynnwys eitem newydd ar Borthladd Rhydd Ynys Môn ar gyfer cyfarfod mis Ebrill 2025 ac ychwanegu eitemau monitro perfformiad a'r gyllideb i'r cyfarfod ym mis Tachwedd 2025.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Ebrill i Dachwedd 2025 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 4. MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 3 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 3 2024/25, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, a chadarnhaodd fod y rhan fwyaf (87%) o'r dangosyddion a gafodd eu monitro yn ystod y chwarter wedi perfformio'n dda a'u bod yn Wyrdd neu'n Felyn yn erbyn eu targedau, gan ddangos fod y perfformiad cyffredinol yn gadarn. Cyfeiriodd at y chwe dangosydd sydd yn tanberfformio ac sy'n Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targedau ar hyn o bryd. Mae rhai ohonynt yn tanberfformio o chwarter i chwarter, ac awgrymodd efallai bod angen ail-arfarnu targedau er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r adnoddau a'r amgylchiadau. Nododd y Cynghorydd Jones fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi adolygu'r adroddiad cerdyn sgorio Ch3 2024/25 yn fanwl ar 11 Mawrth 2025, gan drafod gosod targedau ac eglurder y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA), ac awgrymwyd bod angen ailddiffinio DPA 07 Addysg - Môn Actif (nifer y plant ar gyfartaledd sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn) er mwyn cyfeirio at wersi *Swim Time*. Awgrymodd y Cynghorydd Carwyn Jones hefyd y dylid archwilio'r dangosyddion sy'n perfformio'n dda yn gyson er mwyn deall yn well y ffactorau sy'n cyfrannu at y perfformiad cryf a nodi unrhyw arferion y gellir eu trosglwyddo i feysydd eraill o fewn y Cyngor. Diolchodd y Cynghorydd Carwyn Jones i'r Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol am dynnu holl elfennau'r cerdyn sgorio ynghyd bob chwarter, yn ogystal â phawb arall a gyfrannodd at y gwaith.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol fod y dasg o adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer 2025/26 wedi dechrau'n barod.

Gan fod y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, yn absennol am gyfnod, rhannodd y Pennaeth Democratiaeth adborth ynglŷn â thrafodaeth y

pwyllgor ar adroddiad monitro'r cerdyn sgorio Ch3 yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2025. Roedd y prif faterion a godwyd yn cynnwys targedau y bu i'r Cyngor fethu â'u cyflawni a gweithredoedd er mwyn gwella perfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Douglas Fowlie wedyn fod y Pwyllgor, ar ôl derbyn sicrwydd gan Aelodau Portffolio a Swyddogion ynglŷn â'r materion a godwyd, wedi penderfynu nodi adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Ch3 2024/25, ynghyd â'r meysydd y byddai'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau yn y dyfodol, ac argymell yr adroddiad a'r mesurau lliniaru a amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno bod rhaid i dargedau barhau i fod yn realistig a pherthnasol, bod angen iddynt addasu i amgylchiadau sy'n esblygu a dylid eu seilio ar ddata cyfredol sy'n adlewyrchu newid yn y galw am wasanaethau a chyfyngiadau o ran adnoddau. Awgrymwyd efallai bod angen ailasesu dau ddangosydd perfformiad yn y cyd-destun hwn, sef DPA 07 Addysg - Môn Actif (Nifer y plant ar gyfartaledd sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn) a DPA 03 - Tai (nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod). Cydnabuwyd hefyd bod tuedd i ganolbwyntio ar feysydd Coch ac Ambr ac mae'n bosib nad yw gwersi gwerthfawr yn cael eu nodi mewn perthynas â meysydd sy'n perfformio'n dda. Cyfeiriodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, at yr ymdrechion parhaus i gyrraedd y targed o 70% ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio gwastraff domestig (DPA 02 - Newid Hinsawdd), sydd â pherfformiad o 66% ar hyn o bryd, ac awgrymodd y gallai ymgyrch newydd i godi ymwybyddiaeth o ailgylchu fod yn fuddiol ac yn amserol. Pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith fod gan bawb ran i'w chwarae er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei darged ailgylchu gwastraff.

**Penderfynwyd cytuno i'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 3 2024/25 a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol. Roedd y rhain mewn perthynas ag Addysg (Môn Actif), Tai (Darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Thai Gwag), Economi (Contractau angori cwsmeriaid), Newid Hinsawdd (Ailgylchu Gwastraff) ac Iechyd Cyffredinol y Cyngor (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth).**

## 5. CYNYDDU'R CYNNIG CRAIDD I OFALWYR MAETH

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â chynyddu'r cynnig i ofalwyr maeth er mwyn i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a'i gymeradwyo.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Nicola Roberts, Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd, ar ran y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, gan nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd bod rhaid iddo fynychu cyfarfod arall. Esboniodd bod y cynigion yn cynnwys cynyddu lwfansau maethu ar gyfer 2025/26 yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r Isafswm Lwfans Cenedlaethol (mae cynnydd ar gyfer chwyddiant o 5% wedi'i fodelu a'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2025/26 gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r Isafswm Lwfans Cenedlaethol eto), ailstrwythuro'r taliadau sgiliau maethu o 5 haen i 3 a chynyddu'r gostyngiad Treth Gyngor o 50% i 100%. Roedd yr adroddiad yn nodi tueddiadau yn y lwfansau maethu a sgiliau yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, yn ogystal â'r lwfansau sgiliau a chostau newydd. Mae'r gost ychwanegol yn seiliedig ar drosglwyddo saith lleoliad maeth annibynnol i'r Cyngor, ffigwr y gellir ei gyflawni ym marn y Cyngor. Nododd y Cynghorydd Nicola Roberts mai Ynys Môn yw'r ail awdurdod lleol yn unig i gynnig gostyngiad treth gyngor o 100% i ofalwyr maeth, a dyma'r awdurdod lleol cyntaf i gynnig pecyn o fuddion i ofalwyr maeth a bernir bod cymhellion fel hyn, sydd yn boblogaidd iawn, yn hanfodol er mwyn recriwtio a chadw gofalwyr maeth a dangos fod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y cynnig yn cyd-fynd â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant, gan gynnwys maethu, cyn pen dwy flynedd. Wedi hynny, ni fydd gofal ond yn cael ei ddarparu gan sefydliadau nid er elw, gan gynnwys awdurdodau lleol. Er mwyn paratoi ar gyfer y newid, mae angen i'r Cyngor gynyddu ei dîm mewnol o ofalwyr maeth ac os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo bydd yn helpu i ddiwallu'r angen hwn. Mae cynlluniau ar waith i hysbysebu am ofalwyr maeth newydd a gofalwyr maeth sy'n trosglwyddo o'r sector preifat, yn ogystal â sicrhau fod ceisiadau'n cael eu hasesu'n brydlon.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod cyfraniad pwysig gofalwyr maeth Ynys Môn o ran cynnig gofal a chefnogaeth i blant yn ystod cyfnodau heriol yn eu bywydau, ond nododd hefyd fod y cynnig wedi'i ddylunio fel cynllun buddsoddi i arbed ac mae'n ceisio sicrhau defnydd cost-effeithlon o arian yn y tymor hir a defnydd effeithiol o adnoddau.

**Penderfynwyd cymeradwyo cynyddu'r Cynnig Craidd i Ofalwyr Maeth fel yr amlinellir i gynnwys cynnydd ar gyfer chwyddiant mewn lwfansau maethu yn unol â'r cynnydd a argymhellir gan Lywodraeth Cymru i'r isafswm lwfans cenedlaethol sydd i'w gadarnhau (wedi'i fodelu ar 5%), ailstrwythuro'r taliadau sgiliau maethu i gynnwys 3 haen yn hytrach na 5 a chynyddu'r disgownt yn y Dreth Gyngor o 50% i 100%.**

## 6. CYNLLUN STRATEGOL DRAFFT - RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, yn ymgorffori'r Cynllun Strategol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a'i gymeradwyo. Mae'r Cynllun yn nodi uchelgais y Cyngor o ran rheoli perygl Llifogydd ar Ynys Môn dros gyfnod o chwe blynedd.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, a thynnodd sylw at bwysigrwydd y Cynllun i Ynys Môn, a phwysigrwydd cydweithio gydag Awdurdodau Rheoli Perygl er mwyn mynd i'r afael â'r heriau y mae llifogydd yn eu creu a lleihau perygl Llifogydd. Mae gofyn statudol ar y Cyngor i baratoi cynllun lleol i reoli perygl Llifogydd ac mae manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ynghlwm. Cynhaliwyd gweithdy gydag aelodau etholedig hefyd er mwyn rhoi cyfle iddynt gyfrannu at y cynllun strategol drafft. Mae'r cynllun hefyd wedi cael ei graffu'n fanwl gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol pan gyfarfu ar 11 Mawrth 2025.

Cadarnhaodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo y byddai cynllun gweithredu blynyddol yn cael ei ddatblygu ar gyfer bob un o'r chwe blwyddyn ariannol fel rhan o'r Cynllun Strategol, er mwyn rhoi sylw i dasgau refeniw a chyfalaf.

Rhannodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, safbwynt Sgriwtini ar y Cynllun Strategol Rheoli Llifogydd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor hwnnw ar 11 Mawrth 2025. Roedd yr aelodau wedi codi materion yn ymwneud ag ymateb y cyhoedd i'r ymgynghoriad, aliniad y Cynllun â Chynllun y Cyngor a chynnydd cynlluniau a gwaith yn ardaloedd Dwyran a Phorthaethwy. Ar ôl adolygu cwmpas a chynnwys y Cynllun Strategol Rheoli Llifogydd, roedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi penderfynu argymell y Cynllun i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn iddo gael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu, a nododd bod angen cynnwys atodiadau'n dangos rhestr o waith cynnal a chadw a gynlluniwyd a'r cynllun cyfalaf ar gyfer 2025/26, gan gynnwys gwariant a gynlluniwyd ar gynlluniau lliniaru llifogydd yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Mynegodd y Pwyllgor Gwaith ei gefnogaeth lawn i'r Cynllun Strategol Rheoli Perygl Llifogydd Lleol ac roedd yn canmol y tîm a'r gwasanaeth am eu hymdrechion. Pwysleisiodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith werth y cynlluniau lliniaru llifogydd a gwblhawyd yn eu hardaloedd a gymaint y mae'r cymunedau dan sylw'n eu gwerthfawrogi, oherwydd yr effaith ddinistriol y gall llifogydd ei gael ar bobl, cartrefi a busnesau. Amlygwyd hefyd bwysigrwydd gwybodaeth

leol er mwyn tynnu sylw at amodau lleol ac ardaloedd bregus, ynghyd â chydweithio ag asiantaethau partner. Gofynnwyd cwestiynau am ariannu cynlluniau lliniaru llifogydd yn gyffredinol yn y dyfodol, yn ogystal ag argaeledd arian i wneud gwaith mewn ardaloedd lle mae isadeiledd ffyrdd, yn hytrach nag eiddo, mewn perygl, er enghraifft, mewn rhai ardaloedd ym Miwmares. Gofynnwyd hefyd a oes arian ar gael i gynorthwyo tirfeddianwyr preifat i gynnal cyrsiau dŵr ac a fyddai'n bosib dwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy yn y cyswllt hwn.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod y gyllideb atal llifogydd yn blaenoriaethu cartrefi sydd mewn perygl o lifogydd, ond er hynny, gellir cyflwyno ceisiadau i Gronfa Ffyrdd Gwydn Llywodraeth Cymru am gyllid i wella gwytnwch ffyrdd. Yn ogystal, ymdrechir i gynyddu arwyddocâd gwytnwch ffyrdd ym mhrosesau ariannu Llywodraeth Cymru oherwydd effaith bellgyrhaeddol achosion o amharu ar y rhwydwaith ffyrdd ar gymunedau, tebyg i'r rhai a brofwyd yn ne-ddwyrain yr ynys ac a effeithiodd ar drafnidiaeth, ysgolion, teithio i'r gwaith ac apwyntiadau ysbyty. Y nod yw sicrhau bod y fformiwla ariannu'n ystyried effeithiau ehangach ar y gymuned yn hytrach nag ar eiddo ac unigolion yn unig. O ran darparu cymorth i dirfeddianwyr preifat, nododd y Swyddog bod gwaith atal llifogydd y Cyngor sy'n cael ei ariannu'n flynyddol yn cael ei wneud gyda chaniatâd y tirfeddiannwr, ond nid yw'n effeithio ar berchnogaeth na chyfrifoldebau. Er y gallai fod yn ofynnol adolygu deddfwriaeth draenio tir hanesyddol ar lefel genedlaethol yn y dyfodol, mae rôl y Cyngor yn canolbwyntio ar warchod unigolion ac eiddo lleol sydd mewn perygl, yn hytrach na mynd i'r afael â chyfrifoldebau cyfreithiol a allai fod yn fater cymhleth. Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd yn ymwybodol bod unrhyw grantiau ar gael i unigolion, ond dywedodd efallai y byddai'r undebau amaeth yn gallu darparu rhagor o wybodaeth.

Mewn perthynas â'r rhagolygon ar gyfer derbyn arian yn y dyfodol, dywedodd y Peiriannydd Grŵp (Rheoli Strwythurau, Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol) fod system sgorio newydd Llywodraeth Cymru yn golygu nad yw'r Cyngor wedi ennill arian grant ar gyfer cynlluniau mawr yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. O'r £30m sydd ar gael, dyrannwyd £30m i gynlluniau sy'n parhau ac mae cynghorau yng Nghymru'n gorfod cystadlu am gyfran o'r £20m sy'n weddill. Mynegodd y Swyddog bryderon bod y cyllid yn gostwng er bod mwy o'i angen nag erioed, a chadarnhaodd y byddai'r Cyngor yn chwilio am ffynonellau ariannol eraill.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Cynllun Strategol Rheoli Perygl Llifogydd Lleol.**

## 7. CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2025-2055

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai, yn ymgorffori Cynllun Busnes y CRT 2025 - 2055, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a'i gymeradwyo.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai, Gynllun Busnes y CRT, sef cynllun y mae'n rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn derbyn Lwfans Atgyweirio Mawr y Cyngor sydd werth tua £2.7m yn 2025/26. Paratowyd y Cynllun Busnes gan Swyddogion yn y Gwasanaethau Tai a Chyllid, a dyma'r prif offeryn ariannol ar gyfer rheoli a darparu stoc dai'r Cyngor. Mae'n dangos sut mae'r Cyngor yn sicrhau fod ei stoc yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), sut mae'n bwriadu gweithio tuag at gyflawni SATC 2023 a'r buddsoddiad sydd angen i ariannu ei raglen ar gyfer datblygu tai cymdeithasol newydd. Nododd y Cynghorydd Robin Williams bod disgwyl twf o dros 25%, i dros 5,000 o eiddo, yn stoc dai'r Cyngor yn ystod cyfnod y Cynllun, er mwyn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am dai cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae dros 852 o bobl ar y rhestr aros, gan gynnwys 94 o deuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro, ffigwr na welwyd ei debyg o'r blaen.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Cynllun Busnes yn amlinellu'r buddsoddiad sydd ei angen i gynnal stoc dai'r Cyngor er mwyn diwallu anghenion tenantiaid a chyflawni

disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sicrhau gwelliant parhaus trwy ddatgarboneiddio'r stoc dai a datblygu tai cymdeithasol newydd. Yn ogystal â'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr gwerth £2.7m ar gyfer 2025/26, bydd y Cyngor yn derbyn swm ychwanegol o £1.1m er mwyn cefnogi ei fuddsoddiad sylweddol yn y stoc dai. Mae'r Cynllun yn cynnwys rhaglen gyfalaf o thua £13m ar gyfer 2025/26, gyda £3m ar gyfer ariannu 500 o baneli solar ynghyd â batris storio trydan. Mae swm o £3.76m wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2025/26 er mwyn datblygu tai cyngor newydd a phrynu hen dai cyngor. Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai at y tensiwn sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng nodau tai uchelgeisiol Llywodraeth Cymru a'r cap ar renti sy'n cyfyngu'r refeniw sydd ar gael i fuddsoddi mewn tai. Methodd prawf cadernid, oedd yn ystyried y risgiau ar wahân a gyda'i gilydd er mwyn sicrhau hyfywedd y cynllun busnes trwy gydol y cyfnod 30 mlynedd, oherwydd y cyfyngiadau rhent a'r galw am wariant cyfalaf sy'n deillio o SATC 2023. Mae'r Gwasanaeth Tai'n bwriadu codi pryderon gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r gofynion anghynaladwy a osodir ar y CRT.

Cyflwynodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, grynodeb o drafodaeth y pwyllgor ar Gynllun Busnes y CRT yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2025. Roedd y trafodaethau wedi canolbwyntio ar aliniad y cynllun â Chynllun y Cyngor, risgiau'r rhaglen ehangu arfaethedig a'i fforddiadwyedd, a pha mor debygol yw SATC 2 2023 o gael ei gyflawni. Holodd y pwyllgor hefyd am y posibilrwydd o brydlesu eiddo preifat gan/ar ran perchnogion yr eiddo a chyfeiriwyd at Gynllun Lesio Cymru. Ar ôl ystyried y dogfennau a nodi'r sicrwydd a dderbyniwyd mewn perthynas â'r materion a godwyd, penderfynodd y pwyllgor argymell Cynllun Busnes y CRT 2025-2055 i'r Pwyllgor Gwaith, yn ogystal â gweithredoedd ychwanegol mewn perthynas â rhoi cyhoeddusrwydd i Gynllun Lesio Cymru a chysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch gosod gofynion mwy realistig ar gyfer cydymffurfio â SATC 2 2023.

Addawodd y Cadeirydd y byddai'n tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y diffyg cydbwysedd cynyddol rhwng incwm rhenti a gofynion gwariant, yn enwedig o ran cyflawni SATC 2 2023.

**Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2025-2055 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

**Y Cynghorydd Robin Williams**<br>**Cadeirydd**

DRAFT

Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 29 Ebrill 2025 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Gary Pritchard |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mai – Rhagfyr 2025;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy'.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |

| E | Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Gweler uchod. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Gweler uchod. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |



Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E | Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Ddim yn berthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mai – Rhagfyr 2025 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

# Cyngor Sir Ynys Môn

## Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2025

Mae’r flaen raglen waith hon yn rhestru’r holl benderfyniadau y mae’r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny’n cael eu trafod.  Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae’r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae’n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o’r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae’r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu’n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.  Nid yw’r ffaith nad yw penderfyniad wedi’i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 15 Ebrill 2025

## Mai 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 22 Mai 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Mehefin 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 24 Mehefin 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 17.6.25 |
| | Hunanasesiad Corfforaethol Drafft 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | |
| | Dogfen Gyflawni Blynyddol 2025/26 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 17.6.25 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | Prawf Modd – Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Cyng Robin Williams | |
| Penderfyniad dirprwyiedig – Mehefin 2025 | Adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024/25 | Cyng Dafydd Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – 18.6.25 |

## Gorffennaf 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 17 Gorffennaf 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

Tudalen 12

## Medi 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 23 Medi 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Hunanasesiad Corfforaethol ac Adroddiad Perfformiad a Llesiant Blynyddol 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 17.9.25<br>Cyngor llawn 25.9.25 |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 1, 2025/26 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 17.9.25 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 11.9.25 |

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 11.9.25 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 11.9.25 |
| | Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Porthaethwy | Cyng Alun Roberts<br>Cyng Robin Williams | |

## Hydref 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 21 Hydref 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |



## Tachwedd 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 25 Tachwedd 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.11.25 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 6.11.25 |

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i’w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu’r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 6.11.25 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 6.11.25 |

## Rhagfyr 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i’w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu’r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 16 Rhagfyr 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 EBRILL 2025** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON STAD ELUSENNOL DAVID HUGHES AC YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN 2023/24** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **ROBIN WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A THAI**<br>**Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS, DEILYDD PORTFFOLIO PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO**<br>**DAFYDD ROBERTS – DEILYDD PORTFFOLIO - ADDYSG A'R GYMRAEG** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN H OWEN – RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG**<br>01248 762663<br>BethanOwen2@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2023/24 (Atodiad A).
- Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Terfynol a'u ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennol ar ôl cwblhau'r archwiliad yn foddhaol.
- Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i gomisiynu adolygiad allanol o weithrediad ac opsiynau buddsoddi'r Ymddiriedolaethau.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Nid oes unrhyw opsiynau eraill ar gael oherwydd mae'n ofyniad gan y Comisiwn Elusennau fod y cyfrifon blynyddol yn cael eu cymeradwyo gan gorff cyfrifol yr Ymddiriedolaethau, sef y Pwyllgor Gwaith yn yr achos hwn.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Y Cyngor yw'r unig ymddiriedolwr ac mae'r gwaith o weinyddu busnes yr Ymddiriedolaethau wedi'i ddirprwyo i Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol - mae'r cyllid ar gyfer y 2 ymddiriedolaeth ar wahân i gyllid y Cyngor ac nid yw'n cael unrhyw effaith ar gyllid y Cyngor.

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Ni fydd derbyn y cyfrifon yn effeithio ar anghenion hirdymor yr Ynys. Fodd bynnag, drwy adolygu'r opsiynau buddsoddi gellir ystyried hyfywedd ariannol hirdymor Stad David Hughes a sut y gellir sicrhau cyllid ychwanegol i gefnogi disgyblion a chyn-ddisgyblion ysgolion uwchradd y Cyngor yn y dyfodol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Bydd yr adolygiad opsiynau buddsoddi'n ystyried sut y gellir sicrhau incwm ychwanegol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach drwy asedau Stad Elusennol David Hughes. |
| 3 | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy. | Nid yw'n gwbl berthnasol, ond mae'r Ymddiriedolaeth wedi dosbarthu cyllid drwy'r 5 ysgol uwchradd a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ddim yn berthnasol |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Ni fydd y penderfyniad yn effeithio ar y grwpiau a warchodir. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Pwrpas yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach yw darparu cymorth i ddisgyblion a chyn-ddisgyblion 5 ysgol uwchradd y Cyngor fel eu bod yn gallu aros mewn addysg lawn amser neu fynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch. Mae'r disgyblion sydd yn derbyn cymorth gan yr Ymddiriedolaeth yn tueddu i ddod o deuluoedd dan anfantais economaidd. Nod yr adolygiad a argymhellir yw cynhyrchu incwm ychwanegol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth er mwyn cynyddu'r cymorth sydd ar gael. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu grantiau, drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n cefnogi myfyrwyr sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac, felly, mae'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a'r defnydd ohoni. |
| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)** | Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad drafft yn ei gyfarfod ar 1 Ebrill 2025. Roedd y Prif Weithredwr yn cefnogi'r argymhelliad i adolygu'r opsiynau yn gysylltiedig â'r Ymddiriedolaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | Heb dderbyn unrhyw sylwadau. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Cafwyd trafodaeth gyda'r Gwasanaeth Eiddo ynglŷn â'r ffordd y caiff stad David Hughes ei rheoli ac mae'r Gwasanaeth Eiddo'n cytuno bod angen adolygiad. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol |
| 8 | **Aelodau Lleol:** | Ddim yn berthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio'n allanol, a bydd y penderfyniad yn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â gofynion y Comisiwn Elusennau. |

**F - Atodiadau**

- Atodiad A - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2023/24

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2022/23 - Pwyllgor Gwaith 19 Mawrth 2024 (Eitem 6)

**ATODIAD A**

**STAD ELUSENNOL DAVID HUGHES AC YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Yn yr adroddiad hwn ceir trosolwg o'r cefndir i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae ynddo wybodaeth am statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a'r gwahanol elfennau sy'n gysylltiedig â hi. Ceir crynodeb o berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth. Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.

**1.2** Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad i Aelodau ynghylch y camau a gymerwyd i ddosbarthu mwy o gyllid yr Ymddiriedolaeth i gyflawni dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth.

## 2. GWYBODAETH GEFNDIROL

**2.1** Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Cronfa Waddol David Hughes a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn 2/3, sy'n darparu budd addysgol penodol.

**2.1.1. Stad Elusennol David Hughes**

Mae'r gwaddol yn dyddio'n ôl i 1608 ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnwys nifer o blotiau o dir mân-ddaliadau a bythynnod a buddsoddiadau eraill. Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'r eiddo y mae'n buddsoddi ynddynt a difidendau a llog ar fuddsoddiadau'r Gronfa Fuddsoddi, a reolir gan Reolwyr Cronfa Buddsoddi Blackrock. Caiff costau rheoli, ariannol a gweinyddol y stad eu tynnu o'r rhenti a geir er mwyn penderfynu ar yr incwm net y gellir ei rannu yn ystod y flwyddyn. Caiff chwarter unrhyw incwm net sydd dros ben ei dalu i elusen ddigyswllt, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion", a hynny er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn, sydd wedi ei rhannu'n ddwy gronfa benodol.

**2.1.2. Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Yn ogystal â'r incwm net o Stad Waddol David Hughes, mae'r Ymddiriedolaeth hon hefyd yn derbyn incwm o fuddsoddiadau a reolir gan Blackrock, mewn modd tebyg i Gronfa Waddol David Hughes. Pwrpas y gronfa yw darparu cymorth ariannol i ddisgyblion hŷn y 5 ysgol uwchradd er mwyn iddynt gwblhau eu cyrsiau.

**2.1.3. Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Mae'r elfen hon o'r Ymddiriedolaeth yn derbyn incwm mewn ffordd debyg i'r uchod (2.1.2). Mae'r gronfa i'w defnyddio i helpu pobl ifanc dan 25 oed sydd wedi mynychu un neu fwy o'r 5 ysgol uwchradd am gyfnod o ddwy flynedd ac y mae angen cymorth ariannol arnynt i fynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch neu hyfforddiant.

**2.2 Statws Cyfreithiol**

**2.2.1.** Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn elusen gofrestredig a Chyngor Sir Ynys Môn yw'r unig ymddiriedolwr. Nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol sy'n dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cyngor llawn neu swyddog penodol mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth, felly, mae'r penderfyniadau o ran yr Ymddiriedolaeth wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**2.2.2.** Mae rhai swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu dirprwyo i swyddogion mewn ymgynghoriad â'r deilydd portffolio perthnasol:-

- Mae awdurdod mewn perthynas â grantiau addysgol wedi cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc;
- Mae awdurdod mewn perthynas â chytuno ar denantiaethau, pennu rhenti a threfnu rhaglen gynnal a chadw ac atgyweirio wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- Mae awdurdod mewn perthynas â phenderfynu faint o gyllid a ddyrannir i'r tri chynllun bob blwyddyn (o 2019/20 ymlaen) wedi ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, a bydd yn ddibynnol ar faint o warged a gynhyrchir gan y gronfa;
- Gall y Prif Weithredwr ymarfer unrhyw swyddogaeth sydd wedi cael ei ddirprwyo i'r Penaethiaid Gwasanaeth.

## 3. DEFNYDD CYTUNEDIG O GYLLID Y GRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH

**3.1** Ym mis Hydref 2019, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddyrannu swm unwaith ac am byth o £55,280 i bob ysgol uwchradd i gyllido costau Anogwyr Dysgu ym mhob ysgol. Byddai'r Anogwyr Dysgu yn cefnogi disgyblion hŷn oedd yn dilyn cyrsiau TGAU a Lefel A. Mater i bob ysgol fyddai penderfynu dros ba gyfnod o amser i ddefnyddio'r cyllid. Byddai'r gost yn cael ei gyllido o'r Gronfa Gyfyngedig 1/3, gan ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r balans. Ceir mwy o fanylion am y defnydd a wnaed o'r dyraniadau hyn yn 2023/24 ym mharagraff 5 isod.

**3.2** Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddyrannu swm ychwanegol o £8,000 fesul ysgol uwchradd i roi grantiau i gynorthwyo myfyrwyr dan anfantais ariannol i sicrhau lleoedd mewn Colegau a Phrifysgolion a / neu helpu i brynu llyfrau ac offer angenrheidiol i ddilyn cyrsiau yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mater i bob ysgol fydd asesu pob cais a dyfarnu grantiau ar sail eu meini prawf asesu. Roedd cyfanswm y gost, sef £40,000, i'w gyllido o'r Gronfa Gyfyngedig 2/3. Ceir mwy o fanylion am y defnydd a wnaed o'r dyraniadau hyn yn 2023/24 ym mharagraff 5 isod.

**3.3** Yn ogystal, byddai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweinyddu cynllun ysgoloriaeth ar gyfer myfyrwyr o gefndiroedd dan anfantais ariannol er mwyn iddynt ddilyn cyrsiau Prifysgol neu Goleg trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 4. PERFFORMIAD ARIANNOL 2023/24

**4.1 Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)**

**4.1.1.** Mae perfformiad ariannol Stad Elusennol David Hughes wedi'i nodi yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**
**Crynodeb o Berfformiad Ariannol Stad Elusennol David Hughes 2023/24**

| | 2023/24 £ | | 2022/23 £ |
|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | |
| Rhenti a Chostau Eraill | 130,113 | | 128,364 |
| Difidendau a Llog Buddsoddiad | 5,826 | | 5,693 |
| Llog ar Falansau Arian Parod | 21,130 | | 8,631 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **157,069** | **142,688** |
| **GWARIANT** | | | |
| Costau Rheoli'r Stad | (185,013) | | (147,164) |
| Costau Cefnogi | (13,582) | | (12,276) |
| | | **(198,595)** | **(159,440)** |
| **Incwm Net / (Gwariant)** | | **(41,526)** | **(16,752)** |
| Swm a Ddosbarethwyd i Elusen Tlodion Llantrisant | | 0 | 0 |
| Swm a Ddosbarthwyd i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm a Ddosbarthwyd** | | **0** | **0** |

**4.1.2.** Mae gwerth Cronfa'r Ymddiriedolaeth i'w weld yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Crynodeb o Werth Cronfa Stad Elusennol David Hughes**

| | 2023/24 £ | | 2022/23 £ |
|---|---|---|---|
| **Balans Agoriadol y Gronfa** | | **4,587,793** | **4,345,007** |
| Incwm Net / (Gwariant) | (41,526) | | (16,752) |
| Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | 3,931 | | (5,002) |
| Enillion / (Colledion) Net ar Eiddo | (50,100) | | 264,540 |
| | | **(87,695)** | **242,786** |
| **Balans Cau'r Gronfa** | | **4,500,098** | **4,587,793** |

| | 2023/24 £ | | 2022/23 £ |
|---|---|---|---|
| **Asedau'r Gronfa** | | | |
| Buddsoddiadau | 169,485 | | 165,554 |
| Eiddo Buddsoddi | 3,760,400 | | 3,810,500 |
| Dyledwyr | 68,596 | | 62,832 |
| Arian yn y Banc | 510,122 | | 566,255 |
| **Cyfanswm yr Asedau Sefydlog a Chyfredol** | | **4,508,603** | **4,605,141** |
| **Rhwymedigaethau'r Gronfa** | | | |
| Credydwyr - symiau dyledus ymhen blwyddyn | (8,505) | | **(17,348)** |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(8,505)** | **(17,348)** |
| **Cyfanswm Asedau Net** | | **4,500,098** | **4,587,793** |

**4.2 Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn**

**4.2.1.** Mae perfformiad ariannol a balans Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn wedi'i grynhoi yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn - Balans y Gronfa ar 31 Mawrth 2024**

| | 2023/24 £ | | 2022/23 £ |
|---|---|---|---|
| **Balans Agoriadol y Gronfa** | | **297,756** | **369,772** |
| Incwm o Fuddsoddiadau | 11,934 | | 6,752 |
| Grantiau a Ddyfarnwyd | (4,150) | | (75,306) |
| **Incwm / (Gwariant) Net** | | **7,784** | **(68,554)** |
| Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | | 2,756 | (3,462) |
| Trosglwyddiadau o Stad Elusennol David Hughes | | 0 | 0 |
| **Balans Cau'r Gronfa** | | **308,296** | **297,756** |
| **Asedau'r Gronfa** | | | |
| Buddsoddiadau | | 118,448 | 115,691 |
| Arian yn y Banc | | 189,848 | 182,065 |
| **Cyfanswm Asedau'r Gronfa** | | **308,296** | **297,756** |
| Cronfa 1/3 – Disgyblion Cyfredol | | 116,875 | 111,886 |
| Cronfa 2/3 – Disgyblion Cyfredol | | 191,421 | 185,870 |
| **Cyfanswm Asedau'r Gronfa** | | **308,296** | **297,756** |

## 5. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL YN YSTOD Y FLWYDDYN

**5.1** Ym mis Hydref 2019, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddyrannu swm o'r gronfa 1/3 i alluogi ysgolion i gyllido costau Anogwyr Dysgu, a fyddai'n darparu cymorth i ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU a lefel A. Dyrannwyd swm cychwynnol o £55,280 i bob ysgol, ynghyd â dyraniad pellach gan fod balans y gronfa yn ddigonol i gyllido'r gost. Mae balans cyfredol y cyllid hwn fesul ysgol i'w weld yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**
**Dadansoddiad o'r Cyllid Anogwyr Dysgu fesul Ysgol Uwchradd ar 31 Mawrth 2024**

| Ysgolion | Dyraniad Cychwynnol £ | Swm a Ddefnyddiwyd hyd at 31 Mawrth 2023 £ | Balans ar 1 Ebrill 2023 £ | Swm a Ddefnyddiwyd yn 2023/24 £ | Balans ar 31 Mawrth 2024 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Syr Thomas Jones | 55,280 | (37,112) | 18,168 | 0 | 18,168 |
| YU Caergybi | 55,280 | (51,392) | 3,888 | 0 | 3,888 |
| YG Llangefni | 55,280 | (47,420) | 7,860 | 0 | 7,860 |
| Ysgol David Hughes | 55,280 | (45,071) | 10,209 | 0 | 10,209 |
| YU Bodedern | 55,280 | 8,740 | 64,020 | 0 | 64,020 |
| **Cyfanswm** | **276,400** | **172,255** | **104,145** | **0** | **104,145** |

**5.2** Dyfarnodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc un grant o £1,150 a gyllidwyd o'r Gronfa 1/3.

**5.3** Nid yw'r £12,730 sy'n weddill yn y Gronfa wedi cael ei ddyrannu ac ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei ddyrannu i ysgolion i'r diben hwn ym mlwyddyn ariannol 2024/25.


**5.4** Dyfarnodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 6 grant ysgoloriaeth, gwerth £500 yr un, yn ystod y flwyddyn.

**5.5** Roedd balans y Gronfa 2/3 yn £191,421 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac mae ar gael i gyllido grantiau yn y dyfodol i gyn-ddisgyblion.

## 6. PERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA

**6.1** Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach yn ddibynnol, yn bennaf, ar faint o warged a gynhyrchir gan gronfa Stad Ymddiriedolaeth David Hughes sydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth Addysg Bellach. Mae perfformiad ariannol Stad Elusennol David Hughes dros y 6 blynedd diwethaf wedi'i nodi yn Nhabl 5 isod:-


**Tabl 5**




**6.2** Mae'r siart uchod yn dangos bod yr enillion ar fuddsoddiadau masnachol yn dda ac maent wedi gwella'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r enillion ar eiddo buddsoddi yn wael iawn ac, yn 2022/23 a 2023/24, roedd yn negyddol.


**6.3** Y rheswm dros yr enillion gwael ar eiddo buddsoddi yw bod cytundebau tenantiaeth yn gyfyngedig ac nid oes modd cynyddu rhenti yn sylweddol dros amser. Fodd bynnag, mae'r gost o gynnal a chadw'r eiddo'n parhau i gynyddu wrth i gyflwr eiddo ddirywio a chost llafur a deunyddiau gynyddu. Dangosir hyn yn Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**



**6.4** O ganlyniad i'r enillion gwael ar eiddo, nid yw Stad Elusennol David Hughes wedi llwyddo i gyfrannu at Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn y 2 flynedd ddiwethaf gan nad oedd unrhyw warged, fel y gwelir yn Nhabl 7 isod:-

**Tabl 7**




**6.5** Heb y llif hwn mewn incwm i mewn i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn, ni all yr Ymddiriedolaeth ddarparu cymorth i ddisgyblion a chyn-ddisgyblion 5 ysgol uwchradd y Cyngor, sef prif bwrpas yr Ymddiriedolaeth.

**6.6** Heb newid yn y strategaeth yn gysylltiedig â Stad Elusennol David Hughes, mae'r sefyllfa'n debygol o barhau, heb gynnydd sylweddol mewn incwm rhent ond cynnydd parhaus mewn costau atgyweirio dydd i ddydd y Stad ac, felly, daw adeg pan y bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i gynnal a chadw'r eiddo fel eu bod yn addas ar gyfer eu gosod.

**6.7** Daeth y mater i'r amlwg pan gyflwynwyd y Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor Gwaith ym Mawrth 2024, a phenderfynodd y Pwyllgor Gwaith y byddai'n:-

***Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, i archwilio opsiynau ar gyfer cynyddu incwm Stad Elusennol David Hughes er mwyn diogelu hyfywedd hirdymor Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn er budd pobl ifanc Ynys Môn. Caiff adroddiad pellach ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i benderfynu pa opsiwn y dylid ei ddilyn.***

**6.8** Fodd bynnag, oherwydd diffyg capasiti yn y Swyddogaeth Adnoddau a'r Gwasanaethau Eiddo, nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r argymhelliad hwn. Felly, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i benodi cymorth allanol i gynnal yr adolygiad. Byddai'r adolygiad yn ystyried:-

- Y cytundebau tenantiaeth presennol a p'un a oes modd eu hadolygu i gynyddu'r incwm rhent a gynhyrchir;
- Y refeniw a'r buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol i gynnal a chadw'r stad;

- Pe byddai o fwy o fudd ariannol i'r Ymddiriedolaeth gael gwared ar rywfaint neu'r cyfan o'r stad a buddsoddi'r cyllid a gynhyrchir i sicrhau mwy o enillion i'r Ymddiriedolaeth,
- Adolygu'r polisi buddsoddi presennol i weld pe gellid sicrhau mwy o enillion ar fuddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth pe byddai'r polisi'n cael ei newid (byddai hyn yn gysylltiedig â Stad Elusennol David Hughes ac Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn).

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

# ANGLESEY FURTHER EDUCATION TRUST FUND

## ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

## ANNUAL REPORT AND ACCOUNTS

## 2023/24

**Rhif Cofrestru Elusen / Charity Registration No.**

**525254**

**CYNNWYS Y DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024**


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | 1-5 |
| Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol | 6 |
| Datganiad o Weithgareddau Ariannol | 7 |
| Mantolen | 8 |
| Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol | 9-15 |

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102), sy'n weithredol o 1 Ionawr 2015.

**MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL**

**Rhif Cofrestru Elusen:**

525254

**Cyfeiriad y Brif Swyddfa:**

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Ymddiriedolwr:**

Unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn, a gweinyddwyd gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

**Archwiliwr Annibynnol:**

Mr. Brian Hughes
A. Hughes-Jones, Dyson & Co
Capel Moreia
De Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1NS

## STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

### Dogfen Lywodraethu:

Rheolir yr elusen gan ei ddogfen lywodraethu, gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n ymgorffori elusen anghorfforedig.

Rheoleiddir Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn gan gynllun a wnaed gan y Bwrdd Addysg ar 23 Mawrth 1939, ac fe'i haddaswyd yn sylweddol gan gynllun dyddiedig 18 Gorffennaf 1960. Mae'r rhain yn nodi'r dyletswyddau, pwerau a'r amodau y mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth weithredu oddi tanynt.

### Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae'r elusen yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

Caiff ymddiriedolwyr newydd eu briffio am eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan gyfraith elusennol, cynnwys y ddogfen lywodraethu a'r broses gwneud penderfyniadau. Nodir ac ymdrinnir yn fewnol ag anghenion hyfforddiant gan ymddiriedolwyr presennol eraill a swyddogion y Cyngor.

### Strwythur y Sefydliad:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn, a gweinyddir gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Mae strwythur y sefydliad wedi bod fel a ganlyn:-

- Mae Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn gweithredu fel yr Ymddiriedolwr.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes) y Cyngor, ar y cyd â'r Deilydd Portffolio Dysgu Gydol Oes, yr awdurdod dirprwyedig i ddyfarnu'r grantiau blynyddol.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) y Cyngor ar y cyd â'r Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yr awdurdod dirprwyedig i reoli cytundebau tenantiaeth ac i osod rhenti'r portffolio eiddo (Gwaddol David Hughes).
- Bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cymeradwyo cyfrifon yr Ymddiriedolaeth a dirprwyir awdurdod i arwyddo Cyfrifon Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i'r Swyddog Adran 151.

Arweinwyr strategol y Cyngor Sir oedd:-

- Prif Weithredwr – Dylan Williams
- Dirprwy Brif Weithredwr – Rhys Hughes
- Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 – Marc Jones
- Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro – Lynn Ball

### Partïon Cysylltiedig:

Oherwydd natur gweithrediadau'r elusen a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i weithwyr. Cynhelir yr holl drafodion gyda sefydliadau y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich. Mae gan y Cyngor bolisi lle bod rhaid i bob ymddiriedolwr ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

**Rheoli Risg:**

Adolygwyd y prif risgiau y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel y nodwyd gan yr Ymddiriedolwr, a sefydlwyd systemau neu weithdrefnau i reoli'r risg.

**AMCANION A GWEITHGAREDDAU**

**Nodau ac Amcanion:**

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Gwaddol David Hughes; Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 2/3, gyda'r nod o ddarparu budd addysgol penodol.

**Stâd Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol):**

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stâd eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu neu wariant net.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion" er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm sy'n weddill yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn:-

**Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn:**

Dyrennir traean o'r Gronfa Gyffredinol i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill yn y Gronfa Gyffredinol ar gael er budd rhai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu hyfforddiant. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnabod tri chynllun gyda'r bwriad o gynyddu nifer y grantiau a ddyfernir yn y dyfodol.

**Dyrannu Grantiau:**

Dyrennir grantiau i unigolion sydd wedi mynychu neu sy'n mynychu un o'r pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir ac sy'n bodloni'r meini prawf uchod. Gall hyn fod drwy daliadau a wneir i bob ysgol uwchradd neu drwy gynllun ysgoloriaeth i'w weinyddu gan y 'Coleg Cymraeg Cenedlaethol' i fyfyrwyr o gefndiroedd dan anfantais ariannol i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Budd Cyhoeddus:**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at yr arweiniad a gynhwysir yng nghanllawiau cyffredinol y Comisiynydd Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol a phennu'r broses o ddyrannu grantiau.

## LLWYDDIANT A PHERFFORMIAD

### Gweithgareddau Elusennol:

Mae'r elusen wedi parhau i ddiogelu asedau'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r elusen bellach yn dyrannu cyllid i bob un o ysgolion uwchradd yr Ynys. Er mwyn cynorthwyo disgyblion presennol, cynigiwyd hyd at £56k i bob ysgol i gychwyn i gyllido cost Anogwyr Dysgu. Rhoddwyd hefyd £8,560 i bob ysgol i'w galluogi i gynorthwyo myfyrwyr sydd dan anfantais ariannol i gael lleoedd mewn colegau a phrifysgolion a/neu helpu i brynu llyfrau ac offer sy'n ofynnol i fynychu'r cyrsiau yn y flwyddyn gyntaf.

Yn ystod 2023/24, parhaodd y cynllun ysgoloriaethau Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a derbyniodd chwech chyn-ddisgybl £500 yr un ac un yn derbyn £1,150.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

### Perfformiad Ariannol:

Cyn enillion a cholledion ar fuddsoddiadau, roedd gan y Gronfa Waddol wariant net o £41,527 oherwydd buddsoddiad uwch yn ei bortffolio eiddo.

Mae gwerth buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth wedi cynyddu £3,931 y flwyddyn yma, ond arweiniodd ailbrisio un darn o dir at golled o £50,100. Mae hyn yn rhoi gostyngiad o £77,156 yng nghronfeydd yr elusen ar gyfer y flwyddyn.

O ganlyniad, cyfanswm y cronfeydd ar 31 Mawrth 2024 oedd £4,808,393, ac mae'r holl gronfeydd yn gyfyngedig.

### Prif ffynonellau cyllido:

Prif ffynonellau cyllido'r elusen yw incwm rhent gan denantiaid ac incwm buddsoddi ar ffurf difidendau, llog buddsoddi neu log ar adneuon.

### Polisi ac amcanion buddsoddi:

Mae portffolio eiddo sy'n heneiddio'r elusen wedi gofyn am fuddsoddiad sylweddol. Mae ymddiriedolwr yr elusen wedi mynd trwy gyfnod o atgyfnerthu er mwyn cynhyrchu'r cronfeydd ariannol angenrheidiol i ail-fuddsoddi yn ei asedau. Yn ogystal, mae'r elusen yn dal tua 10% o Gyfanswm ei Asedau Sefydlog mewn Cronfeydd Buddsoddi, sy'n cynhyrchu difidend ac incwm llog.

### Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn gweithredu fel busnes hyfyw ar gyfer y dibenion elusennol a nodwyd uchod.

**DATGANIAD CYFRIFOLDEB YR YMDDIRIEDOLWYR**

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifeg Gyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr, y Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth fod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa bresennol yr elusen ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac o'r defnydd a wnaed o adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, yr elusen am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, rhaid i'r ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu gweithredu'n gyson;
- ddilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei fod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac, felly, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Llofnodwyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig ar ran yr Ymddiriedolaeth:-

**R Marc Jones FCPFA** **Dyddiad**

**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**

**Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn**

Rwy'n adrodd i'r Ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024, a nodir ar dudalennau 7-15.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Rwy'n adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan Adran 145 o Ddeddf 2011 ac, wrth gynnal fy archwiliad, rwyf wedi dilyn yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan Adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion o bwys wedi dod i fy sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi rheswm i mi gredu mewn unrhyw fodd perthnasol:-

1. Nad yw cofnodion cyfrifo mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu cadw'n unol ag Adran 130 y Ddeddf; neu
2. Nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny; neu
3. Nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio gyda'r gofynion perthnasol o ran ffurf a chynnwys y cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennol (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn 'adlewyrchiad cywir a theg' sydd ddim yn fater a ystyrir fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau y gellir deall y cyfrifon yn iawn.

Llofnod: ______________________________ Dyddiad: ________________

**Brian Hughes FCA**
**A. Hughes-Jones, Dyson & Co.**
**Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig**
**Capel Moreia, De Penrallt, Caernarfon, Gwynedd**

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Waddol £ | Cyfanswm Cronfeydd £ | Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a Gwaddoliadau o:** | | | | | |
| Incwm Buddsoddi | 2 | 11,934 | 157,068 | 169,002 | 149,440 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **11,934** | **157,068** | **169,002** | **149,440** |
| **Gwariant ar:** | | | | | |
| Rheoli Buddsoddiadau | 3 | - | (185,013) | (185,013) | (147,164) |
| Gweithgareddau Elusennol | 4 | (4,150) | - | (4,150) | (75,306) |
| Costau Cefnogi | 5 | - | (13,582) | (13,582) | (12,276) |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **(4,150)** | **(198,595)** | **(202,745)** | **(234,746)** |
| | | | | | |
| | | **7,784** | **(41,527)** | **(33,743)** | **(85,306)** |
| Taliad o 25% o incwm net i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion | 6 | - | - | - | - |
| Trosglwyddiad o'r incwm Gwaddol net sy'n weddill i'r Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach | | - | - | - | - |
| **Incwm / (Gwariant) Net cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau** | | **7,784** | **(41,527)** | **(33,743)** | **(85,306)** |
| Enillion / (Colledion) net ar Fuddsoddiadau | 7 | 2,756 | (46,169) | (43,413) | 256,076 |
| **Incwm / (Gwariant) net** | | **2,756** | **(46,169)** | **(43,413)** | **256,076** |
| | | | | | |
| **Symudiad net mewn Cronfeydd** | | **10,540** | **(87,696)** | **(77,156)** | **170,770** |
| **Cysoni Cronfeydd:** | | | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 297,756 | 4,587,793 | 4,885,549 | 4,714,779 |
| **Cyfanswm cronfeydd wedi'u cario drosodd** | | **308,296** | **4,500,097** | **4,808,393** | **4,885,549** |

## MANTOLEN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm Cronfeydd £ | Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau a restrwyd neu a fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc gydnabyddedig | 7a | 118,448 | 169,485 | 287,933 | 281,245 |
| Eiddo Buddsoddi - Stâd David Hughes | 7b | - | 3,760,400 | 3,760,400 | 3,810,500 |
| **Cyfanswm Asedau Sefydlog** | | **118,448** | **3,929,885** | **4,048,333** | **4,091,745** |
| Asedau Cyfredol | | | | | |
| Dyledwyr | 8 | - | 68,595 | 68,595 | 62,832 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 9 | 189,848 | 510,122 | 699,970 | 748,320 |
| **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | | **189,848** | **578,717** | **768,565** | **811,152** |
| Rhwymedigaethau<br>Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | - | (8,505) | (8,505) | (17,348) |
| **Asedau neu (Rwymedigaethau) Cyfredol Net** | | **189,848** | **570,212** | **760,060** | **793,804** |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | - | - | - | - |
| Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau | | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Asedau neu (Rwymedigaethau) Net** | | **308,296** | **4,500,097** | **4,808,393** | **4,885,549** |
| Cronfeydd yr Elusen | 11 | | | | |
| Cronfeydd Gwaddol | | - | 4,500,097 | 4,500,097 | 4,587,793 |
| Cronfeydd Incwm Cyfyngedig | | 308,296 | - | 308,296 | 297,756 |
| **Cyfanswm Cronfeydd Elusennol** | | **308,296** | **4,500,097** | **4,808,393** | **4,885,549** |

Arwyddwyd y datganiadau ariannol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig:

**R Marc Jones FCPFA**
**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**

**Dyddiad**

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

### 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

**Confensiwn Cyfrifo**

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn cost hanesyddol ac eithrio buddsoddiadau, sy'n cael eu cynnwys ar sail gwerth y farchnad. Mae hyn fel yr addaswyd drwy ailbrisio asedau penodol ac yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102) (a ddaeth i rym Ionawr 2015), Deddf Elusennau 2011 a gofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau.

**Adnoddau a dderbyniwyd**

Caiff yr holl adnoddau a dderbynnir eu cydnabod unwaith y mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau, ei bod yn sicr y derbynnir yr adnoddau, ac y gellir mesur gwerth ariannol yr adnoddau a dderbynnir gyda digon o ddibynadwyedd.

**Adnoddau a wariwyd**

Cyfrifir gwariant ar sail groniadol ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli'r costau'n uniongyrchol o dan benawdau penodol, fe'u dyrannwyd i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

**Costau cynhyrchu cronfeydd**

Mae costau cynhyrchu cronfeydd yn cynnwys costau rheoli buddsoddiadau.

**Eiddo buddsoddi**

Dangosir eiddo buddsoddi ar sail y prisiad mewnol mwyaf diweddar. Caiff cyfanswm unrhyw warged neu ddiffyg ariannol yn sgil newidiadau mewn gwerth ar y farchnad ei drosglwyddo i'r gronfa waddol.

**Trethiant**

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth ar ei gweithgareddau elusennol.

**Treth ar Werth**

Gall yr elusen adennill Treth ar Werth trwy ei hymddiriedolwr, Cyngor Sir Ynys Môn, felly, lle mae'n briodol, dangosir gwariant yn net o Dreth ar Werth.

**Strwythur y Gronfa**

Mae gan yr elusen dair cronfa, un gwaddol a dwy gyfyngedig.

**Stâd Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)**

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stâd eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion", er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant.

Mae’r incwm sy’n weddill yn ffurfio Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn, sy’n cael ei rhannu’n ddwy:

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Dyrennir traean o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o’r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Mae’r ddwy ran o dair sy’n weddill o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gael er budd rhai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o’r ysgolion sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu addysg uwch neu hyfforddiant.

Nid oes gan yr elusen unrhyw incwm anghyfyngedig.

**Buddsoddiadau asedau sefydlog**

Caiff buddsoddiadau eu datgan ar sail eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr enillion a’r colledion net sy’n codi o ailbrisio a gwarediadau yn ystod y flwyddyn.

**Enillion a cholledion wedi’u gwireddu**

Mae’r holl enillion a cholledion yn cael eu cynnwys ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi. Caiff enillion a cholledion wedi’u gwireddu ar fuddsoddiadau eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiant a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw’n hwyrach). Caiff enillion a cholledion heb eu gwireddu eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw’n hwyrach). Nid yw enillion wedi’u gwireddu ac enillion heb eu gwireddu wedi’u nodi ar wahân yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

## 2. INCWM BUDDSODDI

| **Incwm Buddsoddi** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.24 £** | **Cyfanswm 31.3.23 £** |
|---|---|---|---|---|
| Rhenti a dderbyniwyd | - | 129,603 | 129,603 | 127,364 |
| Trethi dŵr - ad-daliadau | - | 510 | 510 | 1,000 |
| Incwm arall o Stâd David Hughes | - | - | - | - |
| Difidendau a llog buddsoddiad | 4,070 | 5,826 | 9,896 | 9,670 |
| Llog arall | 7,864 | 21,130 | 28,994 | 11,406 |
| **Cyfanwm Incwm Buddsoddi** | **11,934** | **157,069** | **169,003** | **149,440** |

## 3. COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

| Costau Rheoli Buddsoddiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.24 £ | Cyfanswm 31.3.23 £ |
|---|---|---|---|---|
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw Stâd David Hughes | - | (182,237) | (182,237) | (134,036) |
| Taliadau Dŵr | - | (3,836) | (3,836) | (3,474) |
| Gwasanaethau Proffesiynol | - | - | - | - |
| Costau eiddo eraill | - | 1,060 | 1,060 | (5,057) |
| Darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion | - | - | - | (4,597) |
| **Cyfanswm Costau Rheoli Buddsoddiadau** | **-** | **(185,013)** | **(185,013)** | **(147,164)** |

## 4. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| Gweithgareddau Elusennol | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.24 £ | Cyfanswm 31.3.23 £ |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau addysgol a ddyfarnwyd | (4,150) | - | (4,150) | (3,000) |
| Grantiau i ysgolion - annogwyr dysgu | - | - | - | (72,306) |
| Grantiau i ysgolion - cymorth tuag at addysg uwch | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Gwariant Elusennol** | **(4,150)** | **-** | **(4,150)** | **(75,306)** |

Mae'r grantiau Addysg a ddyfarnwyd yn cynnwys chwe grant ysgoloriaeth gwerth £500 a ddyfarnwyd i gyn-ddisgyblion drwy Goleg Cymraeg Cenedlaethol, ac un grant o £1,150.

Mae’r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso’r eithriad a ganiateir o dan y Gyfraith Elusennau a’r SORP i gadw enwau’r rhai sy’n derbyn grant yn gyfrinachol.

## 5. COSTAU CEFNOGI

| Costau Cefnogi | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.24 £ | Cyfanswm 31.3.23 £ |
|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu a rheoli eiddo | - | (8,567) | (8,567) | (7,919) |
| Costau cyfrifo a chefnogi | - | (4,004) | (4,004) | (3,387) |
| Tâl yr Archwiliwr Annibynnol | - | (1,010) | (1,010) | (970) |
| **Cyfanswm Costau Cefnogi** | **-** | **(13,581)** | **-** | **(12,276)** |

## 6. DOSBARTHU INCWM NET Y GRONFA WADDOL

Mae 25% o incwm net cyn enillion a cholledion ar fuddsoddiadau'r gronfa Waddol i'w dalu i elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion. Mae'r gweddill yn cael ei rannu rhwng y Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach gyfyngedig ar sail 1/3 a 2/3:-

| **Dosbarthu Incwm Net y Gronfa Waddol** | **Cyfanswm 31.3.24 £** | **Cyfanswm 31.3.23 £** |
|---|---|---|
| Incwm net ar gael i'w ddosbarthu cyn enillion a cholledion ar fuddsoddiadau | - | - |
| Talu 25% i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion | - | - |
| Trosgwlyddo 25% i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | - | - |
| Trosgwlyddo 50% i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | - | - |

## 7. BUDDSODDIADAU

| **Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.24 £** | **Cyfanswm 31.3.23 £** |
|---|---|---|---|---|
| Enillion / (Colledion) ar Gronfeydd Buddsoddi a restrwyd | 2,756 | 3,931 | 6,687 | (8,464) |
| Enillion / (Colledion) ar Eiddo Buddsoddi | - | (50,100) | (50,100) | 264,540 |
| **Cyfanswm Enillion / (Colledion) Net** | **2,756** | **(46,169)** | **(43,413)** | **256,076** |

### a. BUDDSODDIADAU A RESTRWYD NEU A FASNACHWYD AR GYFENWIDFA STOC GYDNABYDDEDIG

| **Buddsoddiadau a Restrwyd neu a Fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc Gydnabyddedig** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.24 £** | **Cyfanswm 31.3.23 £** |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ar y Farchnad Ar 1 Ebrill | 115,691 | 165,554 | 281,245 | 289,709 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ailbrisio | 2,756 | 3,931 | 6,687 | (8,464) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - |
| **Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth** | **118,447** | **169,485** | **287,932** | **281,245** |

Nid oedd unrhyw asedau buddsoddi y tu allan i'r DU.

Mae'r buddsoddiadau'n bennaf yng Nghronfeydd Buddsoddi Awdurdodedig Elusennau y DU Elusennau BLK gyda daliadau bach mewn stociau gilt ac ecwiti.

## b. EIDDO BUDDSODDI

| Eiddo Buddsoddi | 31.3.24<br>£ | 31.3.23<br>£ |
|---|---|---|
| Gwerth ar y Farchnad ar 1 Ebrill | 3,810,500 | 4,093,000 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | - | (282,500) |
| Amhariad | - | - |
| Enillion / (Colledion) Ailbrisio | (50,100) | - |
| Trosglwyddiadau | - | - |
| **Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth** | **3,760,400** | **3,810,500** |

Cafodd y Stâd ei brisio ym mis Mawrth 2024 ar gyfanswm gwerth o £3,760,400 ar sail y gwerth defnydd presennol gan Sarah V. Williams, Uwch Swyddog Prisio Cyngor Sir Ynys Môn.

## 8. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| Dyledwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 31.3.24<br>£ | 31.3.23<br>£ |
|---|---|---|
| Symiau y gellir eu hadennill ar gontract | 116,914 | 111,151 |
| Darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion | (48,319) | (48,319) |
| **Cyfanswm Dyledwyr** | **68,595** | **62,832** |

Penderfynwyd yn 2017/18 y byddai'n ddoeth creu darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion oherwydd cyfanswm y dyledion hanesyddol oedd wedi cronni. Fodd bynnag, mae ymdrechion i gasglu'r symiau sy'n ddyledus gan gyn-denantiaid wedi cynyddu, gyda rhai llwyddiannau.

## 9. ARIAN YN Y BANC

Mae hyn yn cynrychioli'r balans o fewn y cronfeydd ariannol a gedwir gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ran Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn.

| Arian yn y Banc | Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3<br>£ | Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3<br>£ | Stâd Elusennol David Hughes<br>£ | Cyfanswm Cronfeydd 31.3.24<br>£ | Cyfanswm Cronfeydd 31.3.23<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian yn y Banc | 36,609 | 153,239 | 510,122 | 699,970 | 748,320 |
| **Adneuon Banc** | **36,609** | **153,239** | **510,122** | **699,970** | **748,320** |

## 10. CREDYDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| Credydwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | Cronfeydd Cyfyngedig<br>£ | Cronfeydd Gwaddol<br>£ | Cyfanswm 31.3.24<br>£ | Cyfanswm 31.3.23<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Credydwyr eraill | - | (8,505) | (8,505) | (17,348) |
| **Cyfanswm Credydwyr** | **-** | **(8,505)** | **(8,505)** | **(17,348)** |

## 11. SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

**a.**

| Symudiadau mewn Cronfeydd | 1.4.23<br>£ | Symudiad Net mewn Cronfeydd<br>£ | 31.3.24<br>£ |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 111,886 | 4,989 | 116,875 |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 185,870 | 5,551 | 191,421 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | **297,756** | **10,540** | **308,296** |
| Stâd Elusennol David Hughes | 4,587,793 | (87,696) | 4,500,097 |
| **Cronfeydd Gwaddol** | **4,587,793** | **(87,696)** | **4,500,097** |
| | | | |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | **4,885,549** | **(77,156)** | **4,808,393** |

### b. Mae symudiad net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod, fel a ganlyn:-

| Symudiadau Net mewn Cronfeydd wedi'u cynnwys yn yr uchod: | Adnoddau Incwm<br>£ | Gwariant<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Enillion a Cholledion<br>£ | Symudiad mewn Cronfeydd<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 4,275 | (1,150) | - | 1,864 | 4,989 |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 7,659 | (3,000) | - | - | 4,659 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | **11,934** | **(4,150)** | **-** | **1,864** | **9,648** |
| Stâd Elusennol David Hughes | 157,068 | (198,595) | - | (46,169) | (87,696) |
| **Cronfeydd Gwaddol** | **157,068** | **(198,595)** | **-** | **(46,169)** | **(87,696)** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | **169,002** | **(202,745)** | **-** | **(44,305)** | **(78,048)** |

## 12. TÂL A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

### Treuliau Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw dâl i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 nac y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Ymddiriedolwr, hynny yw, aelodau'r Pwyllgor Gwaith a Tîm Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu ar ei ran. Gweler Nodyn 13 (Datgeliadau Parti Perthynol) mewn cysylltiad â'r ffioedd a dalwyd i'r ymddiriedolwr corfforaethol ar gyfer costau eiddo a gweinyddu ariannol.

## 13. DATGELIADAU PARTI PERTHYNOL

### Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn. Codwyd ffi rheoli eiddo o £8,567 (£7,919 yn 2022/23) gan y Cyngor i weinyddu Stâd David Hughes. Yn ogystal, codwyd ffi rheoli ariannol o £4,004 (£3,387 yn 2022/23) ar yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gweinyddiaeth ariannol a chynhyrchu cyfrifon. Felly, roedd cyfanswm y ffioedd a adenillwyd gan y Cyngor yn £12,571.

Oherwydd natur gweithrediadau’r elusen, a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae’n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy’n gysylltiedig â’r Cyngor a’i weithwyr. Cynhelir yr holl drafodion y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich. Mae gan y Cyngor bolisi bod yn rhaid i bob Cynghorydd ac aelodau’r Tîm Arweinyddiaeth ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Porthladd Rhydd Ynys Môn – DIWEDDARIAD A CHYMERADWYO'R CYTUNDEB***

***Anglesey Freeport –UPDATE AND APPROVAL OF AGREEMENT***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14, of Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF / THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd i'r cyhoedd o ddatgelu sef:-<br><br>Bydd y cyhoedd â diddordeb i weld sut y mae'r Cyngor a'u partneriaid wedi gweithredu y rhaglen Porthladd Rhydd:<br><br>• Adolygu atebolrwydd a thryloywder<br>• Herio penderfyniadau a wneir<br>• Deall a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid yn y dyfodol<br><br>There is a public interest in disclosure as:-<br><br>The public will be interested in how the Council and its partners has implemented the Freeports programme:<br><br>• Review accountability and transparency<br>• Challenge decisions made<br>• Understand and participate in decisions regarding future allocation of funding</td><td>Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw:<br><br>Gallai datgelu rhagfarnu a chael effaith andwyol ar fuddiannau busnes, ariannol a masnachol partner datblygu/ ymgeiswyr a'u prosiectau.<br><br>Gallai datgelu niweidio trafodaethau'r Cyngor gyda phartneriaid/ rhanddeiliaid wrth fwrw ymlaen â gweithgareddau ffrwd gwaith y Porthladd Rhydd.<br><br>The public interest in not disclosing is:-<br><br>Disclosure could adversely impact and prejudice the financial and business affairs and commercial interests of a development partner/ applicants and their projects.<br><br>Disclosure may adversely prejudice the Council's discussions with partners/ stakeholders in progressing the Freeports workstream activities.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae'r budd i'r cyhoedd o gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br><br>The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank